**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Safonau**

**Dyddiad y cyfarfod:** **25 Hydref 2013.**

**Swyddog Arweiniol:** **Gary Williams, Swyddog Monitro**

**Awdur yr Adroddiad:** **Gary Williams, Swyddog Monitro**

**Teitl:** **Ystyried Sylwadau a Phenderfyniad Terfynol Adroddiad a baratowyd gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dan Adran 71(2)(c) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Cyf 2871/201002627)**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Ystyried sylwadau y cyn-Gynghorydd Allan Pennington naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, mewn perthynas â chasgliadau'r ymchwiliad ac unrhyw honiad ei fod wedi methu neu efallai wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad sydd wedi'i gynnwys yn adroddiad yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a wnaed dan Adran 69 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac i wneud penderfyniad terfynol mewn perthynas â'r mater.

## 2 CEFNDIR

2.1 Yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (y Ddeddf) mae Cyngor Sir Ddinbych wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

2.2 Mae'n ofynnol i Aelodau'r Cyngor i lofnodi ymgymeriad i ddweud y byddant, wrth gyflawni eu swyddogaethau, yn dilyn Cod Ymddygiad y Cyngor.

2.3 Mae Adran 69 o'r Ddeddf yn rhoi awdurdod i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ymchwilio i achosion lle mae honiad ysgrifenedig wedi'i wneud iddo gan unrhyw berson bod aelod o awdurdod lleol yng Nghymru wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

2.4 Pwrpas unrhyw ymchwiliad a wneir gan yr Ombwdsmon o dan yr adran hon o'r Ddeddf, yw penderfynu:

a) a oes unrhyw dystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad

b) a oes angen cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â'r materion a oedd yn destun yr ymchwiliad

c) a ddylai'r materion sy'n destun yr ymchwiliad gael eu cyfeirio i Swyddog Monitro'r awdurdod perthnasol dan sylw neu

d) a ddylid cyfeirio'r materion sydd yn destun yr ymchwiliad at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru

**Adroddiad Ymchwiliad yr Ombwdsmon**

2.5 Yn dilyn cwyn a wnaed gan aelod o'r cyhoedd bod y cyn Gynghorydd Pennington wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, penderfynodd yr Ombwdsmon ymchwilio i'r mater. Rhoddwyd y dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr ymchwiliad i'r cyn Gynghorydd Pennington i'w alluogi i ymateb cyn i'r adroddiad gael ei gwblhau.

2.6 Roedd adroddiad yr Ombwdsmon mewn perthynas ag ymddygiad y cyn Gynghorydd Pennington wedi cael ei darparu'n flaenorol i aelodau'r Pwyllgor.

**Ystyried Adroddiad yr Ymchwiliad**

2.7 Gofynnir i Aelodau ystyried adroddiad yr Ombwdsmon ac unrhyw sylwadau a wnaed gan y cyn Gynghorydd Pennington.

2.8 Mae'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â honiadau a wnaed yn erbyn Cynghorwyr ac y cyfeirir ati yn y Pwyllgor hwn i'w weld yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn

## 3 ARGYMHELLION

3.1 Bod y Pwyllgor yn penderfynu a yw'r cyn Gynghorydd Allan Pennington wedi methu â chydymffurfio â Chod Ymddygiad y Cyngor ac os felly: -

(a) a ddylid cymryd unrhyw gamau pellach **neu**

(b) bod y cyn Gynghorydd Pennington yn cael cerydd **neu**

(c) unrhyw argymhelliad arall y mae'r Pwyllgor yn gweld yn addas